Parent-Infant FOUNDATION

# Y Llinyn Aur

## Achos dros Ddatblygu Gwasanaethau Arbenigol i Rieni a Babanod yng Nghymru



Dr. Liz Gregory
Dr. Sarah Witcombe-Hayes
and Sharon Fernandez

Cefnogir gan:
Parent Infant Network Cymru

GIG Cymru NHS Wales | Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol | Perinatal Mental Health Network

NSPCC Cymru | Wales

Cronfa Gymunedol Community Fund

Hydref 2024

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad** | | 3 |
| **Adran Un** | **Pam mae'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn bwysig** | 4 |
| **Adran Dau** | **What specialist parent infant relationship support looks like** | 6 |
| **Adran Tri** | **Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yng Nghymru: Darpariaeth Gyfredol** | 8 |
| **Adran Pedwar** | **I ba faes y dylai Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban berthyn yn strategol?** | 11 |
| **Adran Pump** | **Argymhellion ar gyfer datblygu Gwasanaethau teg ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yng Nghymru** | 15 |
| **Casgliad** | **Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban fel y llinyn aur** | 16 |
| **Cyfeiriadau** | | 17 |


Parent-Infant Foundation
Office 7, 35-37 Ludgate Hill
London EC4M 7JN

f. 020 3475 8984
e. admin@parentinfantfoundation.org.uk
parentinfantfoundation.org.uk

Sefydliad Rhieni-Babanod, cwmni cyfyngedig
trwy warant, rhif cwmni. 8191666
Elusen gofrestredig Cymru a Lloegr (1152082)



# Cyflwyniad

Datblygwyd y papur hwn gan y Parent Infant Foundation, Rhwydwaith Gweithredu Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru, a NSPCC Cymru, gyda mewnbwn gan Parent Infant Network Cymru. Mae'n darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynyddu cymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn ystod y 1000 Diwrnod Cyntaf er mwyn sicrhau bod pob baban yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys pam mae'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn bwysig, beth yw natur y cymorth presennol ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban ac i ba faes y mae gwasanaethau presennol yn perthyn yn strategol.

Mae'r papur yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu timau Arbenigol ar gyfer Perthynas Rhieni a Babanod sy'n deg ac yn hygyrch ledled Cymru a fydd yn cynnig gwaith therapiwtig uniongyrchol i deuluoedd sydd â'r angen mwyaf a helpu i uwchsgilio gweithlu'r blynyddoedd cynnar i gefnogi perthnasoedd cynnar i bob teulu. Wrth wraidd hyn mae gweithredu arweinyddiaeth glinigol genedlaethol ar gyfer y rhiant a'r baban i sbarduno datblygiadau mewn gwasanaethau a sicrhau bod cymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn elfen graidd sy'n bresennol yn holl asiantaethau, gwasanaethau a phroffesiynau'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r papur hwn yn cynnig naw argymhelliad i wireddu'r weledigaeth hon ac i ddatblygu Gwasanaethau teg ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ar hyd a lled y saith rhanbarth. Wrth wneud hynny, nod y papur hwn yw cefnogi'r uchelgais yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol ddrafft i archwilio opsiynau i ddatblygu timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yng Nghymru.



# Adran Un: Pam mae'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn bwysig

## Cyfnod o ddatblygiad cyflym yr ymennydd

Ni ellir dadlau yn erbyn y dystiolaeth ynghylch pwysigrwydd y 1000 Diwrnod Cyntaf (o adeg cenhedlu hyd at ddwy oed)[i]. Mae'n cynrychioli cyfnod tyngedfennol pan fydd ymennydd baban yn datblygu ar raddfa gyflym ac mae'n unigryw o agored i amrywiol ffactorau perthynol ac amgylcheddol – rhai cadarnhaol a negyddol.

Mae'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban a pherthnasoedd allweddol eraill yn ystod y cyfnod hwn yn cael effaith sylweddol ac maent yn hollbwysig o ran iechyd meddwl a lles drwy gydol babandod, plentyndod a bywyd fel oedolion; ynghyd â gwell iechyd corfforol a chanlyniadau bywyd pwysig eraill (e.e. perthnasoedd iach, cyrhaeddiad ysgol, sefydlogrwydd economaidd). Gall perthynas[ii] 'ddigon da' gydag o leiaf un oedolyn, yn ddelfrydol y prif unigolyn sy'n rhoi gofal, helpu i atal, lliniaru ac amddiffyn rhag nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Yn wir, mae baban sydd â pherthnasoedd parhaus mwy sefydlog yn gallu ymdopi'n well ag adfyd wrth iddo ddatblygu trwy gydol ei fywyd ochr yn ochr â'r fantais glir o wneud y mwyaf o'i botensial.

Fodd bynnag, os nad oes perthnasoedd diogel a dibynadwy gydag unigolion sy'n rhoi gofal neu nad ydynt yn gydnaws ag anghenion baban, neu os oes problemau o ran ansawdd y gofal sy'n cael ei roi, gallant fod yn agored i brofi adfyd, trawma, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r perthnasoedd diffygiol hyn yn effeithio ar realiti uniongyrchol babanod, yn ogystal ag arwain at anawsterau posibl gydol oes[iii] gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, addysg,




cyflogaeth a phroblemau yn y berthynas ag eraill. Mae'n ddigon posibl y bydd lefel y risg y mae adfyd cynnar yn ei chyflwyno ar gyfer y dyfodol yn gudd, oherwydd efallai y bydd babanod yn ymddangos i fod yn gweithredu'n dda, ac mae'n cymryd hyfforddiant arbenigol i adnabod anawsterau mewn perthnasoedd cynnar. Mae'r gost (ariannol, cymdeithasol, unigol) o beidio â gweithredu i wella cyfleoedd bywyd baban trwy gefnogi'r perthnasoedd hanfodol hyn yn sylweddol.

Yn wir, mae dadl economaidd gref dros fuddsoddi mewn plentyndod cynnar, gan fod cefnogaeth effeithiol i deuluoedd yn y blynyddoedd cynharaf yn dod ag arbedion i'r pwrs cyhoeddus trwy gostau is ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a mwy o gyfranogiad yn yr economi[iv]. Fel y dangosir gan Gromlin Heckman[v], mae buddsoddiad cynnar, wedi'i dargedu at ble mae'r angen mwyaf, yn gwneud mwy o synnwyr economaidd nag ymyriadau diweddarach yn ystod plentyndod a gydol oes, sy'n llai effeithiol ac yn fwy costus yn aml[vi]. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod gan fabanod yr hawl i'r plentyndod gorau nawr, nid yn unig oherwydd y risg a ddaw yn sgil adfyd ar gyfer eu dyfodol.

Yn anffodus, i rai babanod, mae'n rhy hwyr. Mae babanod o dan 1 oed yn fwy tebygol o gael eu lladd gan berson arall nag unrhyw grŵp oedran arall o blant a phobl ifanc[vii]. Mae hyn yn bennaf oherwydd eu dibyniaeth ar y rhai sy'n rhoi gofal a'r tebygolrwydd cynyddol o fod mewn amgylcheddau lle mae ffactorau risg yn bresennol. Y bregusrwydd sy'n unigryw i'w cam datblygu sy'n eu rhoi mewn o berygl hyd yn oed, a pham fod cymaint o frys ar roi'r ffocws ar ganolbwyntio ar gefnogi perthnasoedd cadarnhaol â rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal.

Fodd bynnag, nid yw'r brys hwn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu ac yn derbyn adnoddau. Ledled y DU, nid oes gan fabanod fynediad teg at gymorth iechyd meddwl arbenigol, ac mae'r gwasanaethau sy'n bodoli yn gyfyngedig iawn[viii]. Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar atal yn ei Rhaglen Lywodraethu[ix], ymrwymiad i sicrhau bod babanod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd[x], a Gweinidog Plant newydd sy'n gyfrifol am brofiadau'r blynyddoedd cynnar a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a Gweinidog Iechyd Meddwl sydd â chyfrifoldeb am bob oedran. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu hawliau babanod, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynyddu cymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban, er mwyn gwneud y mwyaf o botensial y cyfnod datblygiadol hwn, ochr yn ochr â lleihau'r risg glir o niwed.




Ffynhonnell: Heckman

# Adran Dau: Beth yw natur y cymorth arbenigol ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban

## Timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban

Mae timau arbenigol ar gyfer y Berthynas Rhwng y Rhiant a'r Baban[xi] yn dimau amlddisgyblaethol gydag arbenigedd mewn cefnogi a chryfhau'r berthynas bwysig rhwng babanod a'u rhieni neu ofalwyr. Gall y gwasanaethau hyn gefnogi teuluoedd sy'n ymdrin â thrawma rhwng cenedlaethau ac amrywiaeth o faterion eraill sy'n peryglu'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban (er enghraifft, trawma rhwng cenedlaethau, cam-drin domestig, afiechyd rhieni, iechyd meddwl ac anabledd, cynamseroldeb, trawma geni, materion corfforol a datblygiadol i'r baban).

Mae timau'n gweithio gyda babanod a'r prif unigolion sy'n rhoi gofal iddynt, gan gynnwys rhieni, gofalwyr maeth, neiniau a theidiau neu eraill a allai fod yn darparu'r rôl hon. Yn gyffredinol, mae timau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn gweithio ar ddwy lefel[xii]:

- Maen nhw'n cynnig cymorth therapiwtig arbenigol uniongyrchol i deuluoedd sy'n profi anawsterau cymhleth a/neu barhaus yn eu perthnasoedd cynnar, lle mae lles emosiynol a datblygiad babanod yn wynebu risg arbennig.
- Maen nhw'n gynghorwyr arbenigol ac yn hyrwyddwyr ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban. Maen nhw'n defnyddio eu harbenigedd i helpu'r gweithlu lleol i ddeall a chefnogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban, er mwyn nodi risgiau lle maen nhw'n digwydd a chymryd y camau priodol. Mae hyn yn digwydd drwy hyfforddiant, ymgynghori a/neu oruchwylio a thrwy weithwyr proffesiynol eraill a chynghori arweinwyr systemau a chomisiynwyr.

Mae'r ddwy haen hyn o weithgarwch yn golygu, pan fydd timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn gweithredu'n effeithiol, ac wedi'u hymgorffori yn eu system leol, gallant helpu i hyrwyddo perthnasoedd iach i bob baban yn eu hardal leol trwy gydweithio â gwasanaethau eraill a chynnig ymyrraeth gynnar ac effeithiol i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl. O'r herwydd, maen nhw'n gweithredu fel gwasanaethau arbenigol ac ymyrraeth gynnar[xiii].

Fel yr archwilir yn fanylach yn Adran Pedwar, mae timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn perthyn yn strategol i amrywiaeth eang o leoliadau sefydliadol ac yn gweithredu ychydig yn wahanol yn ôl ffactorau lleol. Fodd bynnag, mae gan dimau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban nifer o elfennau allweddol yn gyffredin:

- maen nhw'n cael eu harwain yn glinigol gan seicoleg a/neu seicotherapi
- y berthynas rhwng y rhiant a'r baban yw ffocws allweddol y gwaith a'r rheswm dros atgyfeirio
- maen nhw'n amlddisgyblaethol ac yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sydd â hyfforddiant arbenigol ychwanegol ym maes iechyd meddwl babanod ac ymyriadau mewn perthnasoedd
- mae'r gwaith therapiwtig uniongyrchol yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng y baban a'r rhiant/gofalwr
- mae hanner eu gwaith yn canolbwyntio ar gefnogi rhwydwaith ehangach y blynyddoedd cynnar trwy hyfforddiant, goruchwylio ac ymgynghori

## Y gwahaniaeth y gall timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ei wneud

Mae ymchwil wedi nodi tri maes effaith allweddol ar gyfer timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban[xiv].

- **Cryfhau'r berthynas rhwng babanod a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt**

  Mae tystiolaeth yn dangos bod ymyriadau a gynigir gan dimau Rhieni a Babanod fel arfer yn effeithiol iawn o ran helpu'r rhai sy'n rhoi gofal i fod yn fwy ymatebol, sensitif a chydnaws ag anghenion eu babanod. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod ansawdd y berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ganlyniadau diweddarach.

- **Gwella iechyd meddwl y rhai sy'n rhoi gofal**

  Mae tystiolaeth yn awgrymu y gellir lleihau lefelau gorbryder, iselder a straen yn sylweddol yn y rhai sy'n rhoi gofal trwy ymwneud â thîm Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban. Gall iechyd meddwl y rhai sy'n rhoi gofal, yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl y geni, effeithio ar eu gallu i ddeall anghenion eu plentyn ac ymateb yn sensitif iddynt.

- **Cefnogi datblygiad cynnar a lles babanod (gan gynnwys y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf)**

  Mae ymyriadau a gynigir fel arfer gan dimau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn dangos sut y gellir cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol babanod. Mae gwerthusiadau o wasanaethau lleol yn dangos sut y gellir lleihau'r risgiau i fabanod a phlant ifanc, gan gynnwys y rhai sydd â phryderon diogelu difrifol, gyda chyfranogiad tîm Rhieni a Babanod.

Yn ogystal, mae'r dystiolaeth yn dangos bod timau'n gweithio ar draws y system gyfan i gryfhau a chefnogi'r sgiliau a'r ymyriadau a ddarperir gan wasanaethau cynenedigol a'r blynyddoedd cynnar ym meysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae'r dull systemau cyfan hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion y Fframwaith NYTH[xv] sydd eisoes wedi'i ymwreiddio yng Nghymru.

## Darlun presennol o'r ddarpariaeth ledled y Deyrnas Unedig

Mae gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar y berthynas rhwng y rhiant a'r baban wedi bod yn brin[xvi] er gwaethaf y sail dystiolaeth sylweddol o ran yr angen i ymyrryd yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn, ac effaith ymyriadau'r gwasanaethau hyn[xvii]. Priodolir hyn yn aml i'r 'man dall babanod', cysyniad sy'n dangos sut mae anghenion babanod yn cael eu hanwybyddu'n gyffredin mewn polisi, cyllid ac wrth gynllunio a datblygu gwasanaetha[xviii].

Erbyn hyn mae 48 o Wasanaethau ymroddedig ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ledled y DU, gyda thri thîm yng Nghymru (G-PIMHS, Cardiff Parents Plus, a gwasanaeth CAMHS y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam a Sir y Fflint). Fodd bynnag, mae'r galw yn llawer mwy na'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau, ac mae'r Parent-Infant Foundation wedi bod yn galw am ddatblygu 400 o wasanaethau arbenigol yn Lloegr yn unig i ddiwallu'r angen presennol.

## Cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i fuddsoddi yn y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Alban[xix], Lloegr[xx] a Gogledd Iwerddon[xxi] wedi cydnabod pwysigrwydd datblygu gwasanaethau'r Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ar lefel genedlaethol ynghyd ag arweinyddiaeth strategol a buddsoddiad. Mae hyn ochr yn ochr â buddsoddiad mewn gwasanaethau eraill sy'n cynnig rhywfaint o gymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban gan gynnwys gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol[xxii], Iechyd Meddwl Mamau, a chymorth seicolegol mewn unedau Newyddenedigol.

Yng Nghymru, mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol yn cynnig cyfle cyffrous ac amserol i gadarnhau'r ymrwymiad i'r 1000 Diwrnod Cyntaf trwy ddatblygu cymorth teg ac arbenigol ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban i fabanod a'u teuluoedd sy'n wynebu'r risg mwyaf ledled Cymru.

# Adran Tri: Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yng Nghymru: Darpariaeth Gyfredol

## Sefydlu Angen

Mae metaddadansoddi Van Ljzendoorn et al (1999) yn amcangyfrif bod gan o leiaf 15% o fabanod yn y boblogaeth gyffredinol ymlyniad anhrefnus[xxiii]. Mae'r ffigur hwn wedi'i ailadrodd mewn astudiaethau mwy diweddar gan atgyfnerthu ei gadernid fel dangosydd o'r angen i fabanod a fyddai'n cael budd o gymorth Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y rhiant a'r baban. Er nad oes data ar gael ar gyfer Cymru gyfan, mae'r adroddiad 'Sicrhau Dechrau Gwell' gan Fwrdd Partneriaeth Caerdydd a'r Fro[xxiv] yn dod i'r casgliad nad oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r rhanbarth hwn yn wahanol wrth amcangyfrif y byddai 15% o fabanod yn cael budd o gymorth arbenigol ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban. Mae'r Adroddiad Sicrhau Bywydau Iacht[xxv], yn Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn awgrymu bod yr angen am ymyrraeth arbenigol rhwng y rhiant a'r baban yn yr ardal honno yn agosach at 20% o fabanod. Mae'n debygol y gellid gweld y lefel uwch hon o angen mewn ardaloedd eraill yng Nghymru sy'n rhannu demograffeg debyg.



## Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer y Rhiant a'r Baban yng Nghymru

Mae pob rhanbarth yng Nghymru ar wahanol gamau tuag at ddatblygu Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban. Fel y disgrifir isod, mae hyn yn amrywio o gefnogi gwasanaethau cyffredinol i hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd cynnar hyd at dimau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban mwy sefydledig, fel G-PIMHS, Cardiff Parents Plus a gwasanaeth CAMHS y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam a Sir y Fflint.

### Gwasanaeth Iechyd Meddwl Babanod Rhieni Gwent (G-PIMHS)

Mae Gwasanaeth Iechyd Meddwl Babanod Rhieni Gwent (G-PIMHS) yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol o therapyddion (Seicotherapyddion Rhieni-Babanod / Plant, seicolegwyr a therapydd cerdd), ymarferwyr iechyd meddwl, ymwelwyr iechyd arbenigol a chymorth gweinyddol. Mae'n dîm iechyd cymunedol y GIG sy'n rhan o nyrsio iechyd cyhoeddus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n cydweithio'n agos â'r pum awdurdod lleol yng Ngwent, h.y. Casnewydd, Sir Fynwy, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen. Mae'r tîm yn derbyn atgyfeiriadau gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol ar gyfer rhieni yn gynenedigol tan fod eu plentyn yn ddwy oed. Mae'n wasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal sy'n gweithio i gryfhau'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban trwy ymyriadau arbenigol.

Mae'r tîm yn cynnig gwaith tymor byr a gwaith unigol a dyadig tymor hirach gyda'r rhiant a'r baban (mae hyn ar gyfer mamau a thadau

a/neu brif ffigurau rhianta) gan ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau seicotherapiwtig, gwaith rhyngweithiol drwy fideo a Watch, Wait and Wonder (WWW). Mae'r Tîm yn cynnig grwpiau arbenigol hefyd e.e. Chwarae a Datblygu (yn cynnwys seicoaddysg, WWW ac ymwybyddiaeth ofalgar); Circle of Security Parenting (COSP) a Grŵp sy'n Canolbwyntio ar Dosturi. Mae'r tîm yn cynnig ymgynghori, hyfforddiant ac ymarfer myfyriol hefyd i'r Gweithlu Ymwelwyr Iechyd a'r Blynyddoedd Cynnar gan gynnwys gweithwyr cymorth Tadau i wella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer. Mae'n gweithio o safbwynt sy'n seiliedig ar ymlyniad ac yn dilyn egwyddorion fframwaith NYTH.

## Gwasanaeth Cardiff Parents Plus a Arweinir gan Seicoleg (0-5)

Mae Gwasanaeth Parents Plus a Arweinir gan Seicoleg yn dîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys seicolegwyr ac ymarferwyr a arweinir gan seicoleg, yng Ngwasanaethau Rhianta Caerdydd yng Nghyngor Dinas Caerdydd fel rhan o'r Cynnig Cymorth Cynnar. Mae'r tîm yn gweithio gyda theuluoedd ledled Caerdydd sy'n feichiog a/neu sydd â phlant ifanc o dan 5 oed. Mae gan y tîm arbenigedd yn y gwaith o gefnogi a chryfhau rhyngweithio a'r berthynas rhwng babanod/plant ifanc a'u rhieni (mae hyn yn cynnwys gofalwyr maeth, neiniau a theidiau neu eraill a allai fod yn y rôl hon). Mae'n wasanaeth anstatudol, sy'n gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i ddarparu ymyriadau personol sy'n seiliedig ar seicoleg yng nghartref y teulu.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd, hyrwyddo dealltwriaeth rhiant o'i blentyn a helpu rhieni i ymateb mewn ffyrdd y dangoswyd eu bod yn hyrwyddo datblygiad a lles plant. Mae'r gwasanaeth yn darparu ymyriadau wedi'u targedu a gwaith therapiwtig mwy arbenigol gyda theuluoedd sy'n profi anawsterau mwy cymhleth a/neu barhaus gyda pherthnasoedd cynnar. Mae'r gwasanaeth yn cynnig hyfforddiant, ymgynghori a/neu oruchwyliaeth glinigol hefyd i helpu'r gweithlu ehangach i ddeall a chefnogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban.

## CAMHS y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam a Sir y Fflint

Mae CAMHS y Blynyddoedd Cynnar yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd i ddarparu asesiad ac ymyriadau iechyd meddwl arbenigol gyda babanod a phlant ifanc yn eu teuluoedd o'u genedigaeth hyd at 7 oed, gan ganolbwyntio ar y berthynas rhwng y rhiant a'r baban/plentyn.

Mae tîm sefydledig y GIG yn ardal Ddwyreiniol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o CAMHS ac mae'n datblygu model gwasanaeth integredig gydag ymwelwyr iechyd, adran datblygiad plant a gwasanaethau niwroddatblygiadol, yn unol â fframwaith NYTH. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio ar gryfhau'r cynnig i rieni a babanod 0-2 oed ac mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i gefnogi'n strategol y gwaith o ddatblygu cymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban ar draws rhwydwaith y blynyddoedd cynnar.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cael ei arwain gan seicoleg ac mae'n cynnwys ymarferwyr therapiwtig o gefndiroedd seicoleg glinigol, gwaith cymdeithasol, ymweliadau iechyd, seicotherapi seicdreiddiol plant, seicotherapi celf a nyrsio meithrin. Nod y tîm yw cynnig ymyrraeth iechyd meddwl arbenigol gynnar i gefnogi a chryfhau'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban/plentyn i gynorthwyo gyda datblygiad gorau posibl a lles emosiynol yn ystod plentyndod a gydol oes. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar i gynnig amrywiaeth o ymyriadau seicolegol a seicdreiddiol, gan gynnwys Arweiniad Rhyngweithio drwy Fideo (VIG), Circle of Security (CoS), Watch Wait and Wonder (WWW).

Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad hawdd at arbenigedd o ymgynghori at ymweliadau iechyd, Dechrau'n Deg, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr rhianta, a hyfforddiant a goruchwyliaeth i'r system ehangach mewn ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r gweithlu lleol.

## Datblygiadau rhwng Rhieni a Babanod mewn rhanbarthau eraill

### Cwm Taf Morgannwg – Datblygu Partneriaeth

Yn dilyn adroddiad Sicrhau Bywydau Iach[xxvi] mae Cwm Taf Morgannwg yn defnyddio'r Fframwaith NYTH ar lefel ranbarthol i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban. Maen nhw yng nghamau cynnar gweithredu Gwasanaeth Teuluoedd sy'n Meithrin sy'n canolbwyntio ar ymgynghori arbenigol, datblygu llwybrau a hyfforddiant i gefnogi gweithlu'r blynyddoedd cynnar.

Fel rhan o'r gwaith hwn mae 'Llais y Baban' wedi'i gyd-gynhyrchu i sicrhau bod dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu gwasanaethau.

### Hywel Dda – Iechyd Meddwl Amenedigol

Mae Hywel Dda wedi cyflogi arbenigwyr ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn y tîm iechyd meddwl amenedigol ac wedi datblygu amrywiaeth o ymyriadau ar gyfer y rhieni hynny sy'n defnyddio eu gwasanaeth ac sy'n profi anawsterau sylweddol yn eu perthynas â'u baban hefyd. Maen nhw'n archwilio'r posibilrwydd o ehangu'r gwasanaeth i gynnig cymorth hefyd mewn achosion lle mae'r prif bryder yn y berthynas rhwng y rhiant a'r baban. Caiff hyn ei hwyluso gan y Tîm Amenedigol sy'n rhan o CAMHS yn strategol ar hyn o bryd ac sy'n cael ei ymgorffori mewn gwasanaethau plant.

### Bae Abertawe a Phowys

Mae Bae Abertawe a Phowys yng nghamau cynnar ystyried pa gymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban fyddai'n diwallu angen lleol.



# Adran Pedwar: I ba faes y dylai Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban berthyn yn strategol?

Ledled y DU, mae Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban wedi datblygu trwy amrywiaeth o wahanol lwybrau. O ganlyniad, nid oes un darparwr clir neu fodel clir o ddarpariaeth gwasanaeth, ond yn hytrach mae amrywiaeth eang o gynlluniau gwasanaeth a ddarperir mewn amrywiaeth eang o leoliadau a systemau. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn y GIG, awdurdodau lleol, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

Mae'r rhan fwyaf o dimau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn y GIG, yn y maes nyrsio iechyd cyhoeddus neu CAMHS fel arfer. Mae rhai ardaloedd wedi comisiynu timau newydd ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban tra bod eraill wedi ehangu eu gwasanaethau presennol i ymgorffori cymorth i rieni a babanod (e.e. clustnodi adnoddau i fabanod a phlant ifanc iawn yn CAMHS neu recriwtio therapyddion rhieni a babanod mewn gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol).

Gallwn weld yr amrywiaeth hwn yn y gwasanaethau yng Nghymru hefyd, lle mae'r tri thîm mewn gwahanol feysydd strategol; Nyrsio Iechyd Cyhoeddus (G-PIMHS), CAMHS (CAMHS y Blynyddoedd Cynnar Wrecsam a Sir y Fflint), a system Awdurdod Lleol (Cardiff Parents Plus). Y casgliad ymhlith arbenigwyr yn y maes yw nad oes dull 'delfrydol' na dull 'un ateb sy'n addas i bawb'; ac mae manteision a chyfyngiadau posibl yn gysylltiedig â phob opsiwn.

## Manteision ac anfanteision o ran dull

Mae'n gryfder ac yn her bosibl bod Gwasanaethau ar gyfer Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn berthnasol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector, ac nid oes un model clir o ddarpariaeth. Ar un llaw, mae hyn yn fantais wirioneddol gan ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth eang o randdeiliaid, cyfraniadau proffesiynol a natur amlasiantaethol y gwaith hanfodol hwn. Yn wir, yr ehangder a'r dyfnder ar draws y system gyfan sy'n hanfodol i lwyddiant Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban a'r effaith y gall timau ei chael. Mae'n bwysig nad yw canfyddiad, cwmpas ac effaith bosibl Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn cael eu cyfyngu drwy eu halinio ag un proffesiwn neu asiantaeth (er enghraifft yn y meysydd iechyd meddwl neu ofal cymdeithasol neu nyrsio iechyd cyhoeddus), neu drwy eu cysylltu â lefel benodol o ymyrraeth (cyffredinol, wedi'i dargedu, arbenigol).

Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod risg y bydd teuluoedd mewn angen yn cael eu colli os yw gwasanaethau arbenigol mewn un lle yn unig. Mae'r risg hwn i'r mynediad i deuluoedd hyd yn oed yn fwy uchel gan fod y babanod sydd â'r angen mwyaf yn cael eu disgrifio'n aml fel rhai 'tawel' neu 'dda' ac nid ydynt o reidrwydd yn ymgyflwyno fel rhai sydd ag anhawster i rywun heb hyfforddiant neu sy'n ddibrofiad. Gall rhieni deimlo cryn stigma hefyd yn gysylltiedig â chyfaddef eu bod yn cael trafferth bondio â'u babanod. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i weithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd yn y maes helpu teuluoedd mewn ffordd dawel

i nodi anawsterau a cheisio cymorth. Felly, mae datblygu perthnasoedd y gellir ymddiried ynddynt gyda darparwyr gwasanaethau ar draws y system, fel bydwreigiaeth, ymweliadau iechyd, a hybiau cymunedol yn hanfodol er mwyn helpu teuluoedd i fagu'r dewrder i geisio cymorth[xxvii].

Ar y llaw arall, gall hyn fod yn heriol hefyd gan nad oes arweiniad proffesiynol na chomisiynu clir ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae risg hefyd, yn y dull 'eang ac agored' hwn, nad oes un asiantaeth, gwasanaeth na phroffesiwn yn cymryd perchnogaeth o ran arwain y gwaith o ddatblygu'r Gwasanaethau Arbenigol hyn ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban.

## Opsiynau ar gyfer ehangu darpariaeth arbenigol ar gyfer rhieni a babanod yng Nghymru

Yng Nghymru, gellir defnyddio'r dysgu o bob rhan o'r DU i ystyried pa faes fyddai'r gorau yn strategol i leoli gwasanaethau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban a phwy ddylai oruchwylio ac arwain y gwaith hwn. Yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol, mae nifer o opsiynau i Lywodraeth Cymru eu hystyried;

- Gosod Gwasanaethau Rhieni a Babanod yn y maes Nyrsio mewn Iechyd Cyhoeddus neu Wasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar lle mae teuluoedd yn cael y perthnasoedd cryfaf yn ystod y 1000 Diwrnod Cyntaf.
- Ehangu gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol i gynnwys Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban.
- Ehangu, addasu ac uwchsgilio CAMHS i ddarparu cymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban.


Mae y tu hwnt i gwmpas y papur hwn i ddarparu arfarniad manwl o opsiynau ar gyfer datblygu gwasanaethau ym mhob un o'r lleoliadau hyn, ac un o'n hargymhellion allweddol yw i Lywodraeth Cymru ystyried comisiynu arfarniad opsiynau annibynnol i ddarparu'r sail dystiolaeth ar gyfer penderfynu i ba faes y dylai timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban berthyn yn strategol yng Nghymru, yn enwedig os yw un o'r uchod i'w hystyried.

## Datblygu dull partneriaeth o gefnogi'r Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban

Wedi dweud hynny, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n manteisio ar y cyfle hwn i fabwysiadu ffocws strategol 'cydgysylltiedig' arloesol ar y 1000 diwrnod cyntaf, yn seiliedig ar weithio amlasiantaethol. Byddai hyn yn cynnwys buddsoddi mewn Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ledled Cymru, a fyddai'n ganolbwynt fel 'llinyn aur' gan gefnogi'r holl wasanaethau, asiantaethau a phroffesiynau sy'n gweithio gyda theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar.

Mae'r diagram blodyn isod yn dangos y cysyniad hwn, gyda Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn ganolbwynt ac yn cysylltu a chefnogi'r holl wasanaethau sy'n cefnogi rhieni yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf. Bwriad dull strategol sy'n canolbwyntio ar y 1000 Diwrnod Cyntaf ar draws yr holl asiantaethau partner fyddai sicrhau bod timau Rhieni a Babanod yn datblygu mewn ymateb i'w cyd-destun lleol, ac nad ydynt wedi'u cyfyngu i'r cyfyngiadau a osodir gan eu lleoliadau neu ffrydiau cyllido. Yn hytrach, byddant yn gallu manteisio ar gryfder yr amrywioldeb hwn i lywio'r darlun cenedlaethol.

Yng Nghymru, mae Fframwaith NYTH[xxviii] gennym eisoes sy'n hwyluso dull partneriaeth o ddatblygu gwasanaethau sy'n cydnabod y system gyfan. Mae pob agwedd ar y Fframwaith NYTH yn cefnogi'r gwaith amlasiantaethol eang sydd ei angen ar Wasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban, ynghyd â gwerthoedd ac elfennau craidd sy'n eu helpu i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae'n darparu offeryn defnyddiol ar gyfer dwyn ynghyd ddull partneriaeth o gefnogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban.


STRATEGAETH PERTHNASOEDD RHIANT-BABANOD/ TÎM ARBENIGOL
Heddlu
Portage/ Plentyn Datblygiad Tîm
Gwasanaethau Cam-drin Domestig
Amenedigol/ Iechyd Meddwl Gwasanaethau
CAMHS Niwro-datblygiadol Tîm
Tai
Ffoadur/ Gwasanaethau Lloches
Gofal Sylfaenol Dim Drws Anghywir
Early Years/ Families First/ Flying Start
Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol
Newyddenedigol Corfforol Timau Iechyd/ Wardiau
Gwasanaethau Plant Amddiffyn Plant Maethu Mabwysiadu
Gwasanaethau Profedigaeth a Thrawma
Bydwreigiaeth ac Iechyd Ymweld
Gwasanaethau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
Llysoedd
Iechyd Cyhoeddus
Trydydd Sector
Iechyd
Lleol Awdurdod/ Gofal Cymdeithasol
Cymuned



## AMae angen nifer o elfennau allweddol i sefydlu'r dull partneriaeth hwn o gefnogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban;

### 1. Arweinyddiaeth strategol

Mae'n hanfodol sefydlu rôl arweinyddiaeth genedlaethol strategol wrth gynorthwyo yn y berthynas rhwng y rhiant a'r baban, i fwrw ymlaen â datblygiadau mewn gwasanaethau arbenigol ledled Cymru, gan ddod â phartneriaid amlasiantaethol at ei gilydd ar draws y system i gefnogi teuluoedd yn well, ac i helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y berthynas rhwng y rhiant a'r baban.

### 2. Buddsoddiad pellach mewn cymunedau

Fel yr amlygwyd yn Fframwaith NYTH[xxix], cymuned yw'r sylfaen ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod y 1000 diwrnod Cyntaf, ac mae'n elfen graidd o ddull system gyfan i gefnogi iechyd meddwl a lles i fabanod a'u teuluoedd. Mae lleoli'r cymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban mewn cymunedau lleol yn ei alluogi i gael ei wreiddio mewn ymarfer o ddydd i ddydd, gan weithredu fel 'llinyn aur' sy'n rhedeg drwy'r 'tapestri o gyswllt a gofal'. Mae buddsoddiad pellach mewn 'hybiau cymunedol' a 'chymorth sy'n seiliedig ar leoedd' yn elfen hanfodol i gefnogi teuluoedd newydd fel y gallant gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cydgysylltiedig i gefnogi datblygiad iach babanod.

### 3. Wedi'i lywio gan anghenion a safbwyntiau babanod

Rhaid cynllunio gwasanaethau o amgylch yr hyn sydd ei angen ar fabanod i ffynnu, yn hytrach na cheisio gosod babanod a'u hanghenion yn y gwasanaethau a'r modelau presennol nad ydynt yn effeithiol o reidrwydd. Mae hwn yn newid pwysig tuag at roi safbwynt a phrofiad byw babanod (llais y baban) wrth wraidd gwaith pawb ar draws y 1000 diwrnod Cyntaf. Mae gwaith arloesol yn digwydd yn yr Alban ar hyn o bryd[xxx], ac mae gwaith ar y gweill yng Nghymru[xxxi] y gellir cyfeirio ato er mwyn sicrhau bod llais babanod yn rhan annatod o ddatblygu gwasanaethau ac ymarfer.

### 4. Cyd-gynhyrchu gyda rhieni

Dylid sefydlu fforymau cenedlaethol a lleol a mecanweithiau cadarn ar gyfer cyd-gynhyrchu er mwyn i wasanaethau weithio gyda rhieni sydd â phrofiad byw i ddylunio, comisiynu a datblygu Gwasanaethau Perthynas Rhieni a Babanod, fel yr amlinellir yn y fframwaith NYTH[xxxii].

# Adran Pump: Argymhellion ar gyfer datblygu Gwasanaethau teg ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yng Nghymru

Mae'r Parent-Infant Foundation, Rhwydwaith Gweithredu Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru, a NSPCC Cymru, gyda mewnbwn gan Parent Infant Network Cymru (PINC) wedi datblygu naw argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru i ddatblygu timau Arbenigol teg a hygyrch ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ledled Cymru. Byddai'r argymhellion hyn yn cynrychioli ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban ac i ganolbwyntio ar y 1000 diwrnod Cyntaf.

1. Ymrwymo i **ddatblygu cynnig system gyfan graddedig ar gyfer babanod** (o'u cenhedlu) a'u teuluoedd sy'n darparu continwwm o **gymorth cyffredinol i gymorth arbenigol ym mhob maes**. Mae hyn yn gofyn am ddatblygu timau Arbenigol teg a hygyrch ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ledled Cymru, a **llwybrau clir** sy'n dangos sut maen nhw'n cyd-fynd â gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar sydd eisoes yn bodoli ac yn eu cefnogi.

2. Comisiynu **arfarniad opsiynau annibynnol** i benderfynu pa faes fyddai'r gorau yn strategol i dimau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban berthyn iddynt yng Nghymru.

3. **Sefydlu rôl arweinyddiaeth Glinigol Genedlaethol** ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban i sbarduno cynnydd a goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaethau hyn ar draws pob lefel o angen, gyda chefnogaeth Hyrwyddwyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Iechyd.

4. **Datblygu set o Safonau Cenedlaethol** ar gyfer Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith NYTH.

5. **Er mwyn i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol weithredu fel yr arweinydd Strategol trawslywodraethol** am y 1000 Diwrnod Cyntaf, gyda chyfrifoldeb am sefydlu a **chydlynu grŵp trawslywodraethol** ar wella canlyniadau yn y 1000 diwrnod cyntaf.

6. **Gwella hyfforddiant a datblygiad y gweithlu ar bob lefel** (cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol), i uwchsgilio gweithlu'r blynyddoedd cynnar i gefnogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn well.

7. Sicrhau bod y set **ddata iechyd meddwl graidd sydd ar ddod yn cynnwys is-set ar iechyd meddwl babanod**, er mwyn helpu i gofnodi'r galw am Wasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban.

8. **Defnyddio'r dysgu o'r prosiect**[xxxiii], Llais y Baban, i alluogi babanod i gael eu hystyried yn well wrth ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru.

9. **Ymrwymo i ragor o fuddsoddi** mewn hybiau cymunedol lleol ar gyfer pob teulu, fel y gallant gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cydgysylltiedig, **i gefnogi datblygiad iach babanod a phlant ifanc**.

# Casgliad: Gwasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban fel y llinyn aur

Mae'r dystiolaeth yn glir bod cefnogi teuluoedd yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf yn rhoi'r cyfle gorau i fabanod gael dechrau hapus ac iach i fywyd, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cael canlyniadau cadarnhaol mewn bywyd.

Mae'r papur hwn wedi dangos y gall timau Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban sydd wedi'u hymgorffori yng nghanol y system blynyddoedd cynnar, weithredu fel arbenigwr a gwasanaeth ymyrraeth gynnar, trwy gynnig ymyriadau arbenigol effeithiol i'r teuluoedd hynny sy'n wynebu'r risg mwyaf, a thrwy hyrwyddo perthnasoedd iach i bob baban, trwy eu cyd-weithio, eu hyfforddiant a'u goruchwyliaeth a thrwy wasanaethau cyffredinol y blynyddoedd cynnar yn eu hardal leol. Mae'n nodi bylchau yn y ddarpariaeth hefyd, gyda dim ond tri thîm Arbenigol ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban yn gweithredu yng Nghymru.

Mae'r papur hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ddatblygu timau Arbenigol teg a hygyrch ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban ledled Cymru, gyda chefnogaeth arweinwyr clinigol cenedlaethol rhieni a babanod i sbarduno datblygiadau mewn gwasanaethau a sicrhau bod cymorth ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r baban yn elfen graidd o holl, wasanaethau, asiantaethau a phroffesiynau'r blynyddoedd cynnar.



# Cyfeiriadau


i. Center on the Developing Child (2009) *Five numbers to remember about the developing child*. Harvard: Center on the Developing Child. Ar gael yn: Five Numbers to Remember About Early Childhood Development (lifebridgehealth.org). Cyrchwyd – 25/09/24.

ii. Gweler Winnicott, D.W (2016) (2il argraffiad). *Playing and Reality*: Routledge.

iii. Mae Pecyn Cymorth UNICEF yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r angen i ganolbwyntio ar y presennol i fabanod ynghyd â'r angen i ddiogelu eu dyfodol. Gweler UNICEF (2023) Understanding and Supporting Mental Health in Infancy and Early Childhood. A toolkit to support local action in the UK. Ar gael yn: Understanding and supporting mental health in infancy and early childhood – a toolkit to support local action in the UK – UNICEF UK Cyrchwyd – 25/09/24.

iv. First 1001 days Movement (2021) *Investing in Babies. The economic case for action.* Ar gael yn: 6.pdf (parentinfantfoundation.org.uk) Cyrchwyd – 25/09/24.

v. Heckman, J. J., and Mosso, S. (2014) The Economics of Human Development and Social Mobility. *Annual Review of Economics*, 6(1), 689-733.

vi. First 1001 days Movement (2021) Investing in Babies. The economic case for action. Ar gael yn: 6.pdf (parentinfantfoundation.org.uk) Cyrchwyd – 25/09/24.

vii. NSPCC (2024) Statistics briefing: child deaths due to abuse or neglect. Ar gael yn: Statistics briefing: child deaths due to abuse or neglect (nspcc.org.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

viii. Gweler Hogg, S (2019) *Rare Jewels. Specialist Parent-Infant Relationships Teams in the UK*. Parent-Infant Foundation. Ar gael yn: Rare Jewels – Parent-Infant Foundation (parentinfantfoundation.org.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

ix. *Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad Llesiant.* Llywodraeth Cymru (2021). y Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant | LLYW. CYMRU. Cyrchwyd – 25/09/24.

x. Cynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru (2022). Ar gael yn: Cynllun plant a phobl ifanc | LLYW. CYMRU. Cyrchwyd – 26/09/24.

xi. Nodyn ar derminoleg – Defnyddir enwau gwahanol ar y gwasanaethau arbenigol hyn yn aml, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Babanod, Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Rhieni a Babanod, neu Wasanaethau ar gyfer y Berthynas rhwng y Rhiant a'r Baban.

xii. Am ragor o wybodaeth gweler Parent-Infant Foundation (2023) *Infant Mental Health and Specialised Parent-Infant Relationship Teams. A Briefing*. Ar gael yn Infant-Mental-Health-Briefing (5).pdf. Cyrchwyd – 25/09/24.

xiii. Disgrifir y ffocws cyfunol hwn mewn blog diweddar gan Hogg, S (2024) Rethinking Specialist Services: the "two triangle" model. Ar gael yn: Rethinking specialist services: The "two triangle" model — Isos Partnership. Cyrchwyd – 25/09/24.

xiv. Parent-Infant Foundation (2023) *The impact of parent-infant relationship teams: A summary of the evidence*. Ar gael yn: Impact-of-teams-report-FINAL-Sept-2023.pdf (parentinfantfoundation.org.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

xv. Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad Llywodraeth Cymru (2023). Ar gael yn: Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad | LLYW.CYMRU. Cyrchwyd – 25/09/24.

xvi. Gweler Hogg, S (2019) *Rare Jewels. Specialist Parent-Infant Relationships Teams in the UK*. Parent-Infant Foundation. Ar gael yn: Rare Jewels – Parent-Infant Foundation (parentinfantfoundation.org.uk).

xvii. Parent-Infant Foundation (2023) *The impact of parent-infant relationship teams: A summary of the evidence*. Ar gael yn: Impact-of-teams-report-FINAL-Sept-2023.pdf (parentinfantfoundation.org.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

xviii. Gweler 1001 Days Movement (2021) *Delivering the Best Start for Life*. Ar gael yn: Final-F1001D-Briefing-Delivering-the-Best-Start-for-Life.pdf (parentinfantfoundation.org.uk). Cyrchwyd – 04/10/24.

xix. Perinatal and Infant Mental Health (PIMH) Fund (2020) *Perinatal and Infant Mental Health*. Ar gael yn: Perinatal and Infant Mental Health – Inspiring Scotland. Cyrchwyd– 25/09/24.

xx. Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Adran Addysg Llywodraeth y DU (2023). *Family Hubs and Start for Life programme*. Ar gael yn: Family Hubs and Start for Life programme – GOV.UK (www.gov.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

xxi. Gweler Public Health Agency (2016) Infant Mental Health Framework for Northern Ireland. 'Supporting the best start in life'. Ar gael yn: IMH Plan April 2016_0.pdf (hscni.net). Cyrchwyd – 25/09/24; Department of Health (2021) Mental Health Strategy 2021-2031. Ar gael yn: doh-mhs-strategy-2021-2031.pdf (health-ni.gov.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

xxii. Maternal Mental Health Alliance (2023) *Specialist perinatal mental health care in the UK 2023*. Ar gael yn: mmha-specialist-perinatal-mental-health-services-uk-maps-2023.pdf (maternalmentalhealthalliance.org). Cyrchwyd – 03/10/24.

xxiii. Van Ljzendoorn, M. H., Schuengel, C. and Bakermans-Kranenburg, M, J., (1999) Disorganised attachment in early childhood: Meta analysis of precursors, concomitants, and sequelae. *Development and Psychopathology*, 11: 225-249.

xxiv. Bateson, K (2023) *Securing a Better Start: Perinatal Mental Health and Parent-Infant Relationships in Cardiff & Vale*.

xxv. Bateson, K., Sercombe, M., and Hamilton, W (2021) *Sicrhau bywydau iach. Securing Healthy Lives: An extended summary of research about parent-infant relationship help and support across Cwm Taf Morgannwg*. Ar gael yn: Securing-Healthy-Lives-ENGLISH.pdf (parentinfantfoundation.org.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

xxvi. Ibid.

xxvii. Nodwyd pwysigrwydd dull system gyfan lle mae gwasanaethau'n plethu 'tapestri o ofal a chysylltiad' i wneud cymorth yn hygyrch, yn hyblyg nad yw'n stigmateiddio, yn y gwerthusiad o 'A Better Start', rhaglen waith ddeng mlynedd sy'n canolbwyntio ar wasanaethau'r blynyddoedd cynnar. Am ragor o wybodaeth, gweler Blake, L (2024) Working with families to support early childhood development Learning from the evaluation of A Better Start. Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol. Ar gael yn: National Evaluation of A Better Start | National Centre for Social Research (natcen.ac.uk). Cyrchwyd – 25/09/24.

xxviii. Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): Llywodraeth Cymru (2023) cyflwyniad. Ar gael yn: Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad | LLYW.CYMRU. Cyrchwyd – 25/09/24.

xxix. Ibid.

xxx. Llywodraeth yr Alban (2023) *Voice of the Infant: best practice guidelines and infant pledge*. Ar gael yn: Voice of the Infant: best practice guidelines and infant pledge – gov.scot (www.gov.scot). Cyrchwyd – 25/09/24.

xxxi. Sefydlwyd y Prosiect Llais y Baban gan Plant yng Nghymru a Phrifysgol Abertawe a'i nod yw datblygu canllawiau ac adnoddau fel y gellir cydnabod a defnyddio llais y baban a hawliau'r baban, a gweld gwerth ynddynt i gefnogi gofal a datblygiad y baban a datblygiad gwasanaeth a pholisi ehangach.

xxxii. Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): Llywodraeth Cymru (2023) cyflwyniad. Ar gael yn: Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad | LLYW.CYMRU. Cyrchwyd – 25/09/24.

xxxiii. Sefydlwyd y Prosiect Llais y Baban gan Plant yng Nghymru a Phrifysgol Abertawe a'i nod yw datblygu canllawiau ac adnoddau fel y gellir cydnabod a defnyddio llais y baban a hawliau'r baban, a gweld gwerth ynddynt i gefnogi gofal a datblygiad y baban a datblygiad gwasanaeth a pholisi ehangach.



# Manylion cyswllt


### Dr Liz Gregory

*Arweinydd Datblygu Cymru*
Parent-Infant Foundation

**Liz@parentinfantfoundation.org.uk**

### Dr. Sarah Witcombe-Hayes

*Uwch-ymchwilydd Polisi*
NSPCC Cymru

**Sarah.Witcombe-Hayes@NSPCC.org.uk**

### Sharon Fernandez

*Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Amenedigol*

Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, Gweithrediaeth GIG Cymru

**Sharon.Fernandez@wales.nhs.uk**




Parent-Infant
FOUNDATION

www.parentinfantfoundation.org.uk

@ParentInfantFdn @First1001days

Elusen Gofrestredig 1152082, Cwmni Cyfyngedig drwy Warant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 08191666.